Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Canllawiau ar gyfer llunio datganiad o ddiben - Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae'r datganiad o ddiben yn ofyniad cyfreithiol. Os ydych yn gwneud cais i gofrestru gwasanaeth gyda ni, rhaid i chi gynnwys datganiad o ddiben fel rhan o'ch cais.

**Cyhoeddwyd:** 8 Ionawr 2024 **Diweddarwyd ddiwethaf:** 3 Ebrill 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llunio-datganiad-o-ddiben-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.

Cynnwys


- Gwybodaeth am y datganiad o ddiben
- Atodiad
- Geirfa

# Gwybodaeth am y datganiad o ddiben

## 1. Beth yw datganiad o ddiben?

1.1. Mae'r datganiad o ddiben yn ddogfen allweddol. Caiff ei lunio ar eich cyfer chi, y rheoleiddiwr a'r comisiynwyr yn bennaf. Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a'ch dyheadau ar gyfer diwallu anghenion y bobl yr ydych yn gofalu amdanynt. Dylai ddangos yn eglur eich bod yn deall eu hanghenion yn llawn a dangos sut, yn enwedig trwy lefelau a hyfforddiant staff, y trefnau gofal, yr amgylchedd a'ch cysylltiadau ag asiantaethau eraill, y byddwch yn gwneud eich gorau i hybu'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl yr ydych yn gofalu amdanynt.

1.2. Rhaid i'r wybodaeth yn eich datganiad o ddiben fod yn gywir, rhaid ei chadw'n gyfredol, a dylai bob amser adlewyrchu'r amrywiaeth o anghenion y gall eich gwasanaeth eu diwallu, gan gynnwys unrhyw wasanaethau arbenigol. Wrth baratoi neu ddiweddaru datganiad o ddiben, dylai darparwyr gwasanaethau ystyried y drosedd o wneud datganiad anwir o dan Adran 47 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

## 2. I bwy mae'r datganiad o ddiben?

2.1. Mae'r datganiad o ddiben yn ofyniad cyfreithiol. Os ydych yn gwneud cais i gofrestru gwasanaeth gyda ni, rhaid i chi gynnwys datganiad o ddiben fel rhan o'ch cais. Bydd hyn yn dweud y canlynol wrthym:

a. manylion amdanoch chi;
b. lle mae'r gwasanaeth;
c. y math o wasanaeth rydych yn ei ddarparu;
d. nodau ac amcanion y gwasanaeth; a
e. sut bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

2.2. Er y gellir defnyddio'r datganiad o ddiben i ddarparu gwybodaeth i unrhyw un a allai fod â diddordeb yn eich gwasanaeth, y prif ddefnydd a wneir ohono o dan Ddeddf 2016 yw darparu meincnod ar eich cyfer chi, y rheoleiddiwr a'r comisiynwyr i fesur sut mae'r gwasanaeth yn perfformio.

2.3. Pan fyddwn yn ystyried eich cais i gofrestru, bydd angen i ni fod yn fodlon y bydd eich gwasanaeth yn cyflwyno darpariaeth briodol ar gyfer llesiant pobl a'i fod yn gallu bodloni'r safonau sydd eu hangen yn y rheoliadau. Bydd y datganiad o ddiben yn brif ffynhonnell o dystiolaeth a ddefnyddir gennym i lywio penderfyniadau i ganiatáu neu wrthod ceisiadau ar gyfer cofrestru ac amrywio cofrestriad.

2.4. Ar ôl cofrestru, byddwn yn ystyried a yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben yn ystod pob arolygiad.

## 3. A oes angen mwy nag un datganiad o ddiben ar ddarparwr gwasanaethau?

- O ran gwasanaethau llety, mae angen datganiad o ddiben ar gyfer pob lleoliad lle y darperir gwasanaeth.
- O ran gwasanaethau cymorth cartref, mae angen datganiad o ddiben ar gyfer pob ardal partneriaeth ranbarthol lle y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.
- O ran gwasanaethau maethu, mabwysiadu, lleoli oedolion ac eiriolaeth, dim ond un datganiad o ddiben sydd ei angen ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir mewn unrhyw le yng Nghymru.

## 4. Pryd mae angen diwygio'r datganiad o ddiben?

4.1. Dylech ddiwygio eich datganiad o ddiben pan fyddwch yn gwneud newidiadau sy'n golygu nad yw bellach yn disgrifio'r gwasanaeth yr ydych chi'n ei ddarparu a/neu sut y caiff ei ddarparu'n gywir. Dylech adolygu eich datganiad o ddiben o leiaf unwaith y flwyddyn neu pan gaiff newidiadau eu gwneud i'r gwasanaeth.

4.2. Pan fydd newidiadau arwyddocaol ar droed yn y gwasanaeth, mae angen hysbysu'r rheoleiddiwr o'r newidiadau arfaethedig 28 o ddiwrnodau ymlaen llaw gan ddefnyddio ein proses hysbysu ar-lein. Bydd angen i chi gyflwyno eich datganiad o ddiben diwygiedig. Mae enghreifftiau o newidiadau arwyddocaol yn cynnwys:

- pan fydd gwasanaeth nad yw'n darparu gofal nyrsio yn bwriadu darparu gofal nyrsio;
- darparu gwasanaethau arbenigol ychwanegol, e.e. gofal lliniarol neu niwed i'r ymennydd;
- pan fydd gwasanaeth penodol y cyfeirir ato yn y datganiad o ddiben yn cael ei dynnu'n ôl; neu
- newidiadau i'r trefniadau staffio arferol, fel y disgrifir yn Adran 5 o'r datganiad o ddiben.

Cyfeiriwch at adran 3 ‘'Yr amrywiaeth o anghenion sydd gan yr unigolion y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei ddarparu iddynt" yn y templed ar gyfer Datganiad o Ddiben y gellir dod o hyd iddo ar ein **tudalen Cofrestru gwasanaeth (https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofrestru-gwasanaeth)**.

4.3. Byddwn yn ystyried y newidiadau arfaethedig, a bydd angen i ni fod yn fodlon â'r canlynol:

a. bydd eich gwasanaeth yn parhau i gyflwyno darpariaeth briodol ar gyfer llesiant y

bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth;

b. bydd yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol dan y rheoliadau; ac
c. ni fydd yn cynnwys newid a fydd yn gofyn i chi wneud cais ar gyfer amrywio eich cofrestriad.

## 5. Y cyd-destun cyfreithiol ar gyfer y datganiad o ddiben

5.1. Mae Atodlen 2 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth leiaf sy'n rhaid ei chynnwys yn y datganiad o ddiben. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ofynnol hon yn atodiad 2.

5.2. Mae Rheoliadau 3, 4, 6, 7 ac 8 o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019, yn rhoi gofynion penodol ar y darparwr o ran y datganiad o ddiben wrth wneud cais i gofrestru neu amrywio gwasanaeth rheoleiddiedig. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ofynnol hon yn atodiad 1.

5.3. Yn ogystal â hyn, cyfeirir at y datganiad o ddiben mewn llawer o reoliadau o fewn y canlynol:

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1264/contents/made/welsh)** (Dolen allanol)

**Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/163/made/welsh)** (Dolen allanol)

**Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/165/contents/made/welsh)** (Dolen allanol)

**Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/169/made/welsh)** (Dolen allanol)

**Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol (Cymru) 2019 (https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/762/contents/made/welsh)** (Dolen allanol)

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 (https://www.legislation.gov.uk/wsi/2023/1327/regulation/1/made/welsh)** (Dolen allanol)

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024 (https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2024/407/regulation/1/made)** (Dolen allanol)

Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion mewn cyswllt â darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol.

## 6. Cysylltiadau â'r Datganiad Blynyddol

6.1. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig gyflwyno datganiad blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a nodir yn adran 10 o Ddeddf 2016 a rheoliadau'r datganiad blynyddol1 a wnaed o dan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys darparu datganiad cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth a nodir yn y rheoliadau. Mae'r datganiad cydymffurfiaeth yn canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol canlynol:

1. Bod pobl yn teimlo bod eu lleisiau yn cael eu clywed, y gallant ddewis eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt.
2. Bod pobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad parhaus a'u llesiant cyffredinol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol i blant.
3. Bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
4. Bod pobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu llesiant ac yn rhoi cymorth iddynt gyflawni eu hamcanion personol yn y ffordd orau (ar gyfer gwasanaethau llety yn unig).

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r datganiad o ddiben yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cyflawni amcanion pobl yn glir.

#### Templed ar gyfer datganiad o ddiben

Gellir dod o hyd i'r templed ar gyfer datganiad o ddiben ar ein **tudalen Cofrestru gwasanaeth (https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofrestru-gwasanaeth)**.

# Atodiad

## Atodiad 1: Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017: Rheoliadau 3, 4, 6, 7 ac 8

**Rheoliad 3:** Rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig,(3) yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn Adran 6 (1) (a) i (c), ddarparu i Weinidogion Cymru y canlynol:

a. yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1;
b. mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo;
c. mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef;
d. mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.

**Rheoliad 4:** Rhaid i'r datganiad o ddiben y mae'n ofynnol ei ddarparu yn unol â Rheoliad 3 (b), (c) neu (d) gynnwys yr wybodaeth a ddisgrifir yn Atodlen 2.

**Rheoliad 6:** Rhaid i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag Adran 11 (1) (a) (i), yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn Adran 11 (3) (a) (i) a, phan fo'n briodol, Adran 11 (3) (a) (ii), gynnwys y canlynol:

a. yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1;
b. mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo;
c. mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef;
d. mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth cymorth cartref, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.

**Rheoliad 7:** Rhaid i gais i amrywio cofrestriad a wneir yn unol ag Adran 11 (1) (a) (ii), yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn Adran 11 (3) (a) (i), gynnwys y canlynol:

a. yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1;
b. mewn cysylltiad â chais i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd mewn man nad yw eisoes wedi ei bennu yng nghofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, datganiad o ddiben ar gyfer y man hwnnw;
c. mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio cofrestriad i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli mewn perthynas â man nad yw eisoes wedi ei bennu yng nghofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, datganiad o ddiben ar gyfer y man hwnnw;
d. mewn cysylltiad â chais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref mewn perthynas â man nad yw eisoes wedi ei bennu yng nghofrestriad y darparwr mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw, datganiad o ddiben ar gyfer y man hwnnw.

**Rheoliad 8:** Rhaid i'r datganiad o ddiben y mae'n ofynnol ei ddarparu yn unol â Rheoliad 6 (b), (c) neu (d), neu yn unol â Rheoliad 7 (b), (c) neu (d), gynnwys yr wybodaeth a ddisgrifir yn Atodlen 2.

## Atodiad 2: Atodlen 2, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017: Yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn datganiad o ddiben

Mae'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn datganiad o ddiben fel a ganlyn:

a. enw'r ymgeisydd;
b. pan fo'r ymgeisydd yn unigolyn, cyfeiriad yr unigolyn ar gyfer gohebiaeth;
c. pan fo'r ymgeisydd yn sefydliad, cyfeiriad prif swyddfa neu swyddfa gofrestredig y sefydliad;
d. yn achos gwasanaeth cartref gofal, enw a chyfeiriad y man y darperir y gwasanaeth ynddo;
e.
    a. yn achos gwasanaeth cymorth cartref:
        a. enw'r gwasanaeth
        b. yr ardal y darperir y gwasanaeth mewn perthynas â hi;
        c. cyfeiriadau'r swyddfa neu'r swyddfeydd y darperir y gwasanaeth ohoni neu ohonynt;
        d. cyfeiriadau unrhyw swyddfa arall neu unrhyw swyddfeydd eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth;
    b. yn achos gwasanaeth mabwysiadau, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli:
        a. enw'r gwasanaeth;
        b. yr ardal y darperir y gwasanaeth mewn perthynas â hi;

    c. cyfeiriadau'r swyddfa neu'r swyddfeydd y darperir y gwasanaeth ohoni neu ohonynt;
    d. cyfeiriadau unrhyw swyddfa arall neu swyddfeydd eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth;

f. enw'r unigolyn a ddynodir gan yr ymgeisydd i fod yn unigolyn cyfrifol ar gyfer y man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;
g. datganiad o ystod anghenion yr unigolion y mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig i gael ei ddarparu ar eu cyfer, sydd i gynnwys ystod oedran, nifer a rhyw unigolion o'r fath;
h. sut y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu i ddiwallu anghenion unigolion a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol, fel sy'n ofynnol gan reoliadau o dan Adran 27 a chan ystyried yr ystod o anghenion a nodir yn y datganiad o ddiben (gweler paragraff (e));
i. manylion strwythur rheoli a staffio arfaethedig y gwasanaeth;
j. manylion y fangre, y cyfleusterau a'r cyfarpar a fydd ar gael i unigolion yn unol â gofynion y rheoliadau a wneir o dan Adran 27 a chan ystyried yr ystod o anghenion a nodir yn y datganiad o ddiben (gweler paragraff (e));
k. yn achos gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, disgrifiad o'r ardal y mae'r gwasanaeth wedi ei leoli ynddi, a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cymunedol sydd ar gael yno;
l. dmanylion y trefniadau a wneir i gefnogi anghenion diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yr unigolion;
m. manylion y trefniadau a wneir ar gyfer ymgynghori ag unigolion ynghylch gweithredu'r gwasanaeth rheoleiddiedig;
n. manylion ynghylch sut y bydd y darparwr yn diwallu anghenion iaith a chyfathrebu unigolion, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg;
o. manylion unrhyw ofal iechyd (gan gynnwys nyrsio) neu therapi sydd i gael ei ddarparu yn y fangre y bwriedir darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig ynddi.

# Geirfa

**Gwasanaethau llety:** Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau preswyl ysgol arbennig

**Gwasanaethau cymorth cartref:** Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau byw â chymorth.

**Ardal partneriaeth ranbarthol:** Y rhain yw'r ardaloedd partneriaeth ranbarthol a nodwyd yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wneud trefniadau partneriaeth er mwyn cyflawni swyddogaethau penodol. Yn y rheoliadau hyn, mae saith ardal bartneriaeth wedi'u nodi. Dyma nhw fel a ganlyn:

1. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent:
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
    - Cyngor Sir Fynwy
    - Cyngor Dinas Casnewydd
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
2. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru:
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
    - Cyngor Sir y Fflint
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
    - Cyngor Sir Ynys Môn
    - Cyngor Sir Gwynedd
    - Cyngor Sir Ddinbych
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
3. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a’r Fro:
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
    - Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
    - Cyngor Bro Morgannwg
4. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg:
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
    - Cyngor Dinas a Sir Abertawe
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
5. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg:
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
6. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru:
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
    - Cyngor Sir Penfro

    - Cyngor Sir Caerfyrddin
    - Cyngor Sir Ceredigion
7. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Powys:
    - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
    - Cyngor Sir Powys

**Gofal/gwasanaeth arbenigol:** Pan fyddwn yn cyfeirio at wasanaeth arbenigol, rydym yn golygu gwasanaeth sydd wedi'i deilwra'n benodol i ofalu am grŵp penodol o bobl neu bobl â math penodol o gyflwr – er enghraifft, niwed i'r ymennydd, anabledd dysgu, nam ar y synhwyrau ac ati. Bydd hyn yn gofyn am lefel angen uwch nag arfer, a allai fod angen:

- hyfforddiant a/neu gymwysterau arbennig i ddeall a diwallu anghenion;
- amgylchedd sydd wedi'i gynllunio i gefnogi'r cyflwr penodol neu grŵp penodol o bobl;
- offer arbenigol i gefnogi'r cyflwr penodol neu'r grŵp penodol o bobl; a/neu
- ddwysedd uwch o oriau cymorth sgìl uchel.

**Modelau gofal:** Hwn yw'r dull neu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Fel arfer, mae modelau gofal yn seiliedig ar arferion gorau wrth ofalu am grŵp penodol o bobl wrth iddynt fynd trwy gamau cyflwr, anaf neu ddigwyddiad.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/canllawiau-ar-gyfer-llunio-datganiad-o-ddiben-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.